Beibl i Blant

yn cyflwyno



Waliau Mawr Nehemeia

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Jonathan Hay
addaswyd gan: Mary-Anne S.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2018 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd cenedl fawr Persia yn rheoli'r byd. Ac roedd y Brenin Artaxerxes yn rheoli Persia. Roedd hynny'n golygu mai ef oedd arweinydd pwysicaf a mwyaf y byd.

Un o weision pwysicaf y brenin oedd Iddew o'r enw Nehemeia. Ei waith oedd blasu bwyd y brenin rhag ofn i rywun ei wenwyno.

Un diwrnod, daeth Nehemeia at y brenin, ac roedd ei wyneb yn drist iawn. Gofynnodd y brenin beth oedd o'i le. "O frenin, boed i ti fyw am byth!" meddai Nehemeia. "Rwy'n drist oherwydd mae'r ddinas ble mae fy hynafiaid wedi'u claddu yn adfeilion, a'i gatiau wedi'u llosgi." Roedd Nehemeia yn siarad am Jerwsalem. Roedd y ddinas wedi cael ei dinistrio flynyddoedd yn ôl mewn rhyfel.

Gofynnodd y Brenin Artaxerxes, "Beth wyt ti eisiau gen i?" "Gad i mi fynd i Jerwsalem i adeiladu'r ddinas eto," atebodd Nehemeia. Cytunodd y brenin yn garedig. Rhoddodd lythyrau swyddogol i Nehemeia i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd yn saff.

Cafodd fwy o help gan y brenin hefyd – llythyr i Asaff, oedd yn gofalu am goedwig y brenin, iddo roi coed i Nehemeia er mwyn adeiladu waliau'r ddinas.



Ar ôl cyrraedd Jerwsalem, casglodd Nehemeia swyddogion y ddinas at ei gilydd a dweud, "Dych chi'n gwybod mor anodd ydy pethau yma: mae Jerwsalem yn adfeilion a'i giatiau wedi'u llosgi. Gadewch i ni ddechrau ailadeiladu."

Dywedodd wrthyn nhw fod y brenin yn gefnogol, ac yn bwysicach fyth, roedd Duw gyda nhw.

Mae'n rhaid bod ffydd a brwdfrydedd Nehemeia wedi ysbrydoli'r bobl. Dyma nhw'n cytuno a dweud, "Gadewch i ni ddechrau ailadeiladu ar unwaith!" Dywedodd Nehemeia wrth bob teulu pa ran o'r wal roedden nhw'n gyfrifol am ei thrwsio.

Ond doedd pawb ddim yn cytuno, gan gynnwys dyn o'r enw Sanbalat, a'i ddau ffrind Tobeia a Geshem. Doedden nhw ddim yn Iddewon, a doedden nhw ddim am weld y waliau'n cael

eu hadeiladu a'r giatiau'n cael eu trwsio.

Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, roedd Sanbalat yn mynd yn flin. Roedd e a'i ffrindiau yn gwneud sbort ar ben yr Iddewon. Dywedodd Tobeia, "Bydd y wal maen nhw'n ei chodi yn chwalu os bydd llwynog yn dringo arni!" Gwrthod ymateb wnaeth Nehemeia, a gweddïodd am

i Dduw ddelio gyda nhw.

Pan welson nhw bod eu geiriau ddim yn cael unrhyw effaith ar y gwaith, dyma nhw'n cynllwynio gyda'i gilydd i ymladd yn erbyn Jerwsalem, a chreu helynt.

Unwaith eto, fe wnaeth Nehemeia weddio am help Duw. Dyma fe hefyd yn gosod pobl i amddiffyn y ddinas ddydd a nos fel bod neb yn gallu ymosod yn sydyn.

Gweithiodd yr Iddewon mor galed, dechreuon nhw flino. Roedd rhai yn ofni y byddai'r gelyn yn dod ac yn eu lladd wrth iddyn nhw weithio. Ond, daliodd Nehemeia ymlaen gyda'r cynllun. Dyma fe'n gosod pobl i amddiffyn y gweithwyr, gan atgoffa nhw fod Duw gyda nhw, a bod Duw yn gryfach nag unrhyw elyn!



Ceisiodd Nehemeia osod esiampl. Roedd y brenin Artaxerxes wedi ei wneud yn llywodraethwr Jerwsalem gyda'r hawl i ofyn am fwyd ac arian gan y bobl. Ond wnaeth e ddim hynny. Aeth ati fel pawb arall i weithio ac ailadeiladu'r waliau. Gwariodd arian ei hun i brynu bwyd.

O'r diwedd, gorffennodd y bobl adeiladu'r wal, a dim ond gosod y drysau ar y prif gatiau oedd i'w wneud eto. Pan glywodd Sanbalat, Tobeia a Geshem bod y bylchau yn y wal i gyd wedi eu cau, dyma nhw'n cynllunio i wneud drwg i Nehemeia.

Fe wnaethon nhw anfon neges at Nehemeia yn gofyn iddo gyfarfod gyda nhw mewn lle o'r enw Ono. Ond roedd Nehemeia yn gwybod eu bod nhw'n trio ei gael i adael y ddinas er mwyn iddyn nhw gael cyfle i ymosod arno. Anfonodd nodyn yn ôl yn dweud ei fod yn methu gadael y gwaith.

O'r diwedd,
cafodd y wal
ei gorffen.
Gosododd
Nehemeia wylwyr i
amddiffyn y waliau.

Gwnaeth reol hefyd fod y gatiau i gael eu cloi dros nos,
a doedden nhw ddim i gael eu hagor nes iddi wawrio'n iawn yn y bore.

Roedd y ddinas nawr yn ddiogel, felly daeth llawer o'r Iddewon oedd wedi bod yn byw mewn gwahanol rannau o'r byd, yn ôl i'r ddinas. Mae'n rhaid bod Nehemeia yn hapus iawn ei fod wedi gorffen y gwaith roedd Duw wedi ei roi iddo, er yr holl anawsterau. Arhosodd yn Jerwsalem, a helpu'r bobl i ddal ati i ufuddhau i Dduw.

Waliau Mawr Nehemeia

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Nehemeia

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130


Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16